Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddio

Cymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir – L137

Tachwedd 2018

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddio hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

## Sail y Dyfarniad

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@gov.wales

ISBN Digidol 978-1-78937-872-6
Hawlfraint y Goron 2018

# Proffil

Mae Tai Cymoedd i'r Arfordir Cyfyngedig ("V2C" neu "y Gymdeithas") yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, a grëwyd yn dilyn trosglwyddo eiddo'n wirfoddol ar raddfa fawr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Medi 2003. Mae wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae ganddi reolau elusennol.

Mae V2C yn berchen ar 5,908 o gartrefi anghenion cyffredinol ac yn eu rheoli, yn cynnwys 216 o gartrefi gwarchod a chartrefi gofal ychwanegol, ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n darparu gwasanaethau rheoli i 710 o lesddalwyr.

## Data Ariannol Allweddol

| | **Data Hanesyddol** | | **Terfyn Cyfamod** | **Cyfartaledd ar gyfer y Sector** |
|---|---|---|---|---|
| | **2016/17** | **2017/18** | | **2016/17** |
| **Perfformiad** | | | | |
| Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant | 14.0% | 14.1% | dd/g | 21.3% |
| Gwarged/ (diffyg) ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant | 5.8% | 3.5% | dd/g | 6.5% |
| Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti | 2.4% | 1.8% | dd/g | 2.0% |
| | | | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm | 100% | 100% | dd/g | 74% |
| Geriad | dd/g | dd/g | dd/g | 61% |
| Sicrwydd Llog | 156% | 149% | 110% | 172% |
| Mae'r balansau arian parod cyfredol a'r cyfleusterau heb eu tynnu yn ddigonol i'r Gymdeithas gwblhau'r rhaglen ddatblygu y mae wedi ymrwymo iddi. | | | | |

# Dyfarniad Rheoleiddio – Statws Cydreoleiddio

## Statws Cydreoleiddio – Tachwedd 2018

**Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

**Hyfywedd Ariannol - Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac mae gan y Gymdeithas yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.